Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**ADRAN:** Ysgolion

**SWYDD:** Pennaeth

**GRADD Y SWYDD:** Graddfa Gyflog Arweinyddiaeth L14 i L20

**YN ATEBOL I'R:** Corff Llywodraethu

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Rhoi cymorth a gofal personol i bobl ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol sy'n derbyn gwasanaeth dydd yng Nghanolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr neu'r Canolfannau Cymunedol.

Cyfrannu at weithredu a datblygu cynlluniau unigol ac amcanion gwasanaeth yn unol â datblygiadau ehangach mewn gwasanaethau Anabledd dysgu.

- Datblygu a chynnal yr ysgol;
- Arfer cyfrifoldeb cyffredinol am drefnu, rheoli a chynnal yr ysgol o fewn blaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt;
- Rhoi arweinyddiaeth broffesiynol ac effeithiol i'r Uwch Dîm Rheoli, holl aelodau eraill o staff yr ysgol, rhieni, a disgyblion;
- Adeiladu ar arfer da presennol.

Bydd y Pennaeth yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am reoli arweinyddiaeth, trefnu a chynnal yr ysgol yn unol â'r canlynol:

- Deddfau Addysg, rheoliadau, Codau Ymarfer, a deddfwriaeth arall;
- Polisïau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol a, lle y bo'n addas, cynlluniau a pholisïau cymeradwy'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd neu Archesgobaeth Caerdydd;
- Gweledigaeth, cenhadaeth, datganiad, gwerthoedd, cynlluniau, blaenoriaethau a thargedau'r ysgol.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

**Cyfeiriad strategol a datblygiad yr ysgol i:**

- Sicrhau rheolaeth effeithiol yr ysgol, gan gynnwys systemau monitro ar gyfer hunanwerthuso ac arolygiadau.
- Arwain drwy esiampl ac ysbrydoli a chymell cymuned yr ysgol.
- Creu gweledigaeth, ethos a pholisïau ar gyfer yr ysgol sy'n hyrwyddo safonau uchel o gyrhaeddiad.
- Cynorthwyo'r Corff Llywodraethu wrth gyflawni'r blaenoriaethau a'r targedau y mae'r ysgol yn gosod i'w hun, rhoi'r cymhelliant i staff gefnogi ei hamcanion.
- Sicrhau bod rheolaeth yr ysgol, gan gynnwys cymorth cyllid a gweinyddu yn cynorthwyo polisïau'r ysgol, ei gweledigaeth a'i nodau.

**Addysgu a dysgu er mwyn:**

- Creu amgylchedd sy'n sicrhau dysgu effeithiol ar draws ehangder y Cwricwlwm a hyrwyddo safonau uchelgeisiol o gyflawniad, ymddygiad a disgyblaeth i bob disgybl, gan gynnwys anghenion ychwanegol.
- Datblygu a hyrwyddo cysylltiadau effeithiol â phartneriaid gan gynnwys rhieni, yr ALl a gwasanaethau cymorth a sefydliadau addysgol eraill yn y gymuned ehangach.
- Gweithio ar y cyd ag ysgolion eraill yn y clwstwr a'r fwrdeistref sirol i nodi gwelliant sy'n arwain at godi safonau.
- Gwella addysgu a dysgu a datblygiad personol disgyblion.
- Hyrwyddo a chefnogi asiantaethau cymorth fel CAFOD, SVP ac eraill i gyflawni gwerthoedd a chredoau Catholig.

**Arwain a rheoli staff - i:**

- Datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda phob aelod o'r staff a'r llywodraethwyr a rhyngddynt.
- Rhoi strategaethau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli a llesiant pob aelod o staff a chynnal y strategaethau hyn.
- Galluogi systemau rheoli perfformiad i weithredu'n effeithiol a mynd i'r afael â gofynion arfarnu staff perthnasol.
- Hyrwyddo amgylchedd gwaith iach i annog agweddau dysgu cadarnhaol a pherthnasoedd mewn disgyblion, gan gydnabod eu bod wedi eu creu ar ddelw a llun Duw.

**Defnyddio staff ac adnoddau yn effeithiol er mwyn:**

- Gweithio gyda llywodraethwyr a chydweithwyr i recriwtio staff o ansawdd uchel.
- Sicrhau bod yr holl staff a llywodraethwyr yn deall eu priod rolau a chyfrifoldebau, yn eu gweithredu'n dda ac i'r safon uchaf.
- Rheoli addysgu a dysgu disgyblion ar draws pob cyfnod.

- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun neu i wella cymhwysedd yn y swydd a rheoli datblygiad personol cydweithwyr.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â gradd y swydd a chymryd rhan yn yr adolygiad rheolaidd o gynnwys y disgrifiad swydd.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai.  Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodi troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

## Manyleb y Person

## Cynorthwyydd Gwaith Cymdeithasol

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Statws Athro Cymwysedig.<br>• Astudiaethau proffesiynol/academaidd pellach.<br>• Tystiolaeth o ennill dyfarniad CPCP neu'n aros i'w dderbyn yn fuan.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Cyfrifoldeb a phrofiad effeithiol a llwyddiannus mewn rôl arweinyddiaeth uwch; h.y. Pennaeth, Pennaeth Dros Dro, Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol.<br>• Profiad diweddar mewn ysgol Gatholig.<br>• Profiad addysgu llwyddiannus a phrofiad o arwain mewn maes pwnc / cyfnod allweddol.<br>• Profiad addysgu llwyddiannus a phrofiad o arwain mewn mwy nag un maes pwnc / cyfnod allweddol<br>• Tystiolaeth o weithio gyda rhieni/gofalwyr i gymryd rhan yn nysgu eu plentyn.<br>• Profiad o addysgu mewn mwy nag un ysgol. | Ydy | Argymhelliad cadarnhaol mewn geirdaon proffesiynol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n gyfystyr ag addysgu a dysgu rhagorol.<br>• Tystiolaeth o weithredu strategaethau'n llwyddiannus i wella addysgu a dysgu er mwyn codi safonau cyflawniad ar gyfer yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol.<br>• Gweithio'n effeithiol, ac mewn partneriaeth, â'r corff llywodraethu.<br>• Rheolaeth economaidd effeithiol. | | |
| **Ymrwymiad i Ffydd** | • Catholig mewn gair a gweithred.<br>• Yn cymryd rhan weithredol yng nghymuned y plwyf.<br>• Dealltwriaeth gadarn o natur neilltuol ysgol Gatholig ac addysg Gatholig.<br>• Dealltwriaeth o rôl arweinyddiaeth yn natblygiad ysbrydol yr holl ddisgyblion a staff.<br>• Dealltwriaeth o rôl yr ysgol yn y plwyf a'r gymuned ehangach.<br>• Profiad o arwain gwasanaethau addoli. | Ydy | Geirda ffydd cadarnhaol a chefnogol gan offeiriad plwyf lle mae'r ymgeisydd yn addoli'n rheolaidd ynddo. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Profiad o weithio fel rhan o dîm sy'n ymroddedig i fod yn gynhwysol i bob disgybl.<br>• Gallu hyrwyddo gwerthoedd ac addysgu Catholig drwy gymeriad ac ethos yr ysgol. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Bod yn fodel rôl ysbrydoledig i ddisgyblion a staff.<br>• Dirprwyo tasgau a chyfrifoldebau, pan fo'n briodol.<br>• Dangos barn resymegol mewn amgylchiadau heriol er mwyn osgoi a datrys gwrthdaro.<br>• Defnydd effeithiol o TGCh i gefnogi addysgu a dysgu.<br>• Gwybodaeth sylfaenol am y Gymraeg. | | |